



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Cynllunio ar gyfer adferiad Economaidd a Chymdeithasol ar ôl y pandemig Coronafeirws:

Atodiad 3: Gwasanaethau cyhoeddus

Laura Bennett, Steve Martin, Emma Taylor-Collins
Gorffennaf 2020

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisi a gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfeirio gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i gyfuno a chyflwyno'r dystiolaeth bresennol a chanfod unrhyw fylchau lle mae angen gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar lywodraeth ond yn cydweithio'n agos â llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd am sut i ateb heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau eraill sydd wedi eu datganoli. Mae'n:

- Cynorthwyo Gweinidogion Llywodraeth Cymru i adnabod, casglu a defnyddio dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i oleuo a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwysio dystiolaeth am beth sy'n gweithio at heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o sut y gall dystiolaeth oleuo a gwella'r broses o lunio polisi a gwella gwasanaethau cyhoeddus, a chyfrannu at theorïau ar lunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymhlith ymchwilwyr i gyfrannu at ymchwil polisi perthnasol sy'n cael effaith ar lawr gwlad.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan yn <https://www.wcpp.org.uk/cy/>

Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r brifysgol yn un uchelgeisiol ac arloesol gyda'i golygon ar wneud cysylltiadau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o sefydliad Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig (UKRI), sefydliad newydd sy'n dod â'r saith cyngor ymchwil yn y DU, ynghyd ag Innovate UK a Research England, at ei gilydd i gynyddu cyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau fel bod ymchwil ac arloesi'n gallu ffynnu.



Llywodraeth Cymru yw'r llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru ac mae'n gyfrifol am feysydd allweddol yn ymwneud â bywyd cyhoeddus gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Cynnwys

Cyflwyniad

Error! Bookmark not defined.

Bord gron 1

4

Trosolwg

Error! Bookmark not defined.

Cydnerthedd a Diwygio

Error! Bookmark not defined.

Trawsnewid digidol

Error! Bookmark not defined.

Gwasanaethau cyhoeddus seiliedig ar leoedd

Error! Bookmark not defined.

Cyfranogwyr

8

Bord gron 2

10

Themâu allweddol

Error! Bookmark not defined.

Iechyd a gofal cymdeithasol

Error! Bookmark not defined.

Addysg

Error! Bookmark not defined.

Trafnidiaeth

Error! Bookmark not defined.

Tai a digartrefedd

Error! Bookmark not defined.

Cyfranogwyr

Error! Bookmark not defined.

Cyflwyniad

Yn yr atodiad hwn, cyflwynir casgliadau dau gyfarfod bord gron o arbenigwyr a alwyd ym Mai 2020 gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd i ystyried yr effeithiau a gafwyd o'r pandemig Coronafeirws ar wasanaethau cyhoeddus a'r rhan y byddant yn ei chwarae wrth adfer ar ôl y pandemig.

Comisiynwyd yr atodiad a'r adroddiad cysylltiedig i helpu i gyfrannu at gynllunio gan Lywodraeth Cymru, ond rydym yn gobeithio y byddant yn ddefnyddiol hefyd i wasanaethau cyhoeddus ac i sefydliadau eraill sy'n datblygu eu strategaethau eu hunain ar gyfer ailgychwyn ac adfer.

Bord gron 1

Y cais i arbenigwyr a gymerodd ran yn y cyfarfod bord gron cyntaf oedd ystyried effaith wahaniaethol y pandemig ar wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys y gwasanaeth iechyd ac addysg ôl-16, ac edrych ar fesurau adfer angenrheidiol a chyfleoedd i newid.

Trosolwg

Mae'r pandemig Coronafeirws yn amlygu ac yn dwysáu rhai o'r heriau a oedd eisoes yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus a'r rheini sy'n dibynnu arnynt fwyaf. Ond mae arwyddion hefyd ei fod wedi hwyluso a chyflymu newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio eu sicrhau ers cryn amser. Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio ac wedi dangos y gallu i fod yn ystwyth, yn arloesol a chydweithredol. Bydd yn bwysig cofnodi hyn a dysgu gwersi yn ei sgil wrth i Gymru symud allan o'r argyfwng presennol. Wrth bennu'r newidiadau sydd eu hangen mewn gwasanaethau cyhoeddus ar ôl y pandemig, bydd yn bwysig canolbwyntio ar degwch rhwng y cenedlaethau a chynnal deialog agored â'r cyhoedd.

Yn sgil yr argyfwng, mae rhai gwasanaethau cyhoeddus wedi mabwysiadu dulliau ar-lein o ddarparu gwasanaethau i fwy o raddau nag o'r blaen. Mae'n bwysig nad yw dulliau digidol yn cael eu gweld yn fater technolegol yn bennaf. Mewn gwirionedd, maent yn ffyrdd i drawsnewid diwylliannau sefydliadol a pherthnasoedd â defnyddwyr gwasanaethau. Wrth gymryd camau i drawsnewid gwasanaethau drwy ddefnyddio dulliau digidol, rhaid gwneud hynny ar sail gwerthusiad o'u heffeithiolrwydd a'u cyfyngiadau. Mewn rhai gwasanaethau ac ar gyfer rhai defnyddwyr gwasanaethau, ni fydd dulliau digidol yn gallu cymryd lle cyswllt personol ac mae angen rhoi blaenoriaeth i gynyddu cynhwysiant digidol.

Bydd yn bwysig ystyried yr effeithiau gwahaniaethol o'r pandemig ar wahanol grwpiau a gwahanol gymunedau, a bydd yn bwysig ymadfer drwy ddull sy'n seiliedig ar leoedd. Gellid cael goblygiadau pellgyrhaeddol i ganolau trefi gan ei bod yn bosibl y bydd llai o bobl yn gweithio ac yn siopa ynnddynt, ac mae'n bosibl y bydd rôl i wasanaethau cyhoeddus drwy ddarparu canolfannau cymunedol yng nghanol trefi. Mae angen meddwl yn fwy cyffredinol am wasanaethau cyhoeddus fel gweithredwyr economaidd a chyfryngwyr mewn cymunedau lleol, ac am rôl llywodraethau mewn ail-lunio dulliau caffael drwy wasanaethau cyhoeddus. Mae rhan allweddol i'w chwarae gan brifysgolion drwy hybu gweithgarwch economaidd yn eu rhanbarth daearyddol ac mae'n bosibl y bydd ffyrdd i gymell sefydliadau addysg uwch i ganolbwyntio ar anghenion yr ardaloedd o'u cwmpas yn amod mewn unrhyw gymorth a gynigir i'r sector gan lywodraeth. Yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, dadleuwyd bod rhan i'w chwarae gan Lywodraeth Cymru drwy hybu integreiddio ac ymdrechion i ailfeddwl am ofal cymdeithasol yn y cartref.

Cydnherthedd a Diwygio

Mae'n debygol y bydd y pandemig Coronafeirws yn codi ystyriaethau o ran cyllido yn y dyfodol yn yr holl wasanaethau cyhoeddus ac ar gyfer prifysgolion. Mae addysg uwch yn wynebu ergyd ddwbl o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr a dderbynnir, yn enwedig o wledydd tramor, ac o ganlyniad i ddirywiad mewn incwm am waith ymchwil. Mae'n bosibl na fydd y strwythur cyllido presennol yn gynaliadwy. Dadleuwyd y dylai prifysgolion gael eu diogelu, oherwydd eu pwysigrwydd i ragolygon pobl ifanc, ond ei bod yn bosibl y bydd angen ailfeddwl am strwythur a nifer presennol y prifysgolion yng Nghymru yn ogystal â'r cydbwysedd rhwng ymchwil ac addysgu mewn gwahanol sefydliadau.

Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi addasu'n gyflym ac ar raddfa fawr ac wedi llwyddo i oresgyn ffiniau sydd wedi atal neu arafu newid yn y gorffennol. Roedd consensws y dylid dysgu gwersi o hyn er mwyn datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n grymuso rhai sy'n creu newid yn lleol, o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, er mwyn lleihau biwrocratiaeth a hybu ystwythder. Roedd y fframwaith llywodraethu cymhleth yng Nghymru (850 o gynghorau cymuned, 22 o awdurdodau lleol, saith bwrdd iechyd lleol a phedwar bwrdd partneriaeth rhanbarthol) yn cael ei weld yn aneffeithlon, drwy arwain at ddyblygu, ac roedd rhai cyfranogwyr yn dadlau bod angen ei ddiwygio er mwyn hwyluso ffyrdd newydd o weithio. Nodwyd ei bod yn bwysig edrych yn feirniadol ar y graddau y mae newidiadau wedi bod yn effeithiol, er enghraifft, er mwyn deall marwolaethau ychwanegol o achosion heblaw COVID-19 ym maes iechyd.

Bydd deialog agored â'r cyhoedd am y problemau a'r dewisiadau y mae Cymru'n eu hwynebu yn un ffordd allweddol i greu newid. Mae'n bosibl y bydd rôl i brifysgolion wrth hwyluso hyn. Roedd un cyfranogwr wedi cynnig cysyniad Banc y Byd o 'Un Iechyd', sy'n canolbwyntio ar gryfhau systemau iechyd cyhoeddus pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd lle

maent yn cydgysylltu, gan ei ddisgrifio fel model uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol a chyfle i Gymru fod yn esiampl. Awgrymodd un arall y byddai croeso i Adroddiad Beveridge newydd sy'n cynnwys cynnig i ddiddymu ffioedd dysgu fel ymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch rhwng y cenedlaethau.

Trawsnewid digidol

Dylid seilio strategaethau ar gyfer trawsnewid digidol ar werthusiad trwyadl o'r ffordd y mae gwasanaethau wedi addasu yng nghyd-destun y pandemig ac o'r effaith o newid i ddarparu drwy ddulliau digidol, er mwyn gweld a yw gwasanaethau wedi gwella ac, os ydynt, sut y gall llywodraethau ddatblygu a chyflwyno dulliau digidol. Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at yr angen i ddysgu gwersi o'r broses gyflym a oedd wedi'i chyflwyno i ddigideiddio tystysgrifau marwolaeth gan fod hyn yn un enghraifft o drechu gwrthwynebiad i ffyrdd newydd o weithio. Gellid dysgu gwersi hefyd o enghreifftiau o drawsnewid digidol mewn argyfyngau – er enghraifft, gweinyddu'r cynllun cymorthdaliadau i gyflogwyr a gyflwynwyd yn Christchurch yn dilyn y ddaeargryn yn 2011.

Tynnwyd sylw at rai o'r ffactorau a oedd yn allweddol ar gyfer hwyluso trawsnewid digidol, yn cynnwys: yr angen am sail resymegol glir ac am ganolbwyntio ar brofiad y defnyddiwr, yn cynnwys datblygu iaith gyffredin dan arweiniad y defnyddiwr, a safonau cyffredin ar gyfer dylunio a darparu. Mae'n bwysig bod defnyddwyr yn cael profiad cyson wrth gysylltu ag asiantaethau o bob math ac mae angen i'r profiad fod yn well na'r profiadau a geir wrth gysylltu wyneb yn wyneb, er enghraifft, neu dros y ffôn. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol wedi dechrau ar y gwaith o wella sgiliau a galluoedd digidol y sector cyhoeddus Cymru, drwy gynnwys sgiliau digidol mewn timau aml-ddisgyblaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae rolau o'r fath yn brin yng Nghymru. Cyfeiriwyd at yr Alban fel enghraifft, gan ei bod wedi dechrau datblygu sgiliau digidol ers chwe blynedd.

Mewn unrhyw strategaeth ddigidol, byddai angen nodi'r pwysigrwydd o gyswllt personol a chyfleu darlun cytbwys o fanteision a chyfyngiadau'r ffyrdd newydd o weithio, yn cynnwys, er enghraifft, y cyfyngiadau sydd mewn ymgynghoriadau o bell gan feddygon teulu a chlinigau cleifion allanol – yn enwedig yn achos pobl hŷn eiddil, gwasanaethau iechyd meddwl a therapi lleferydd. Ac mae angen ystyried yr effeithiau negyddol posibl ar ofal clinigol a phrofiad y defnyddiwr. Awgrymwyd ei bod yn bosibl bod cyflymder y camau i ddigideiddio tystysgrifau marwolaeth wedi amharu ar y gallu i gael dealltwriaeth gywir o achosion marwolaethau. A nodwyd nad yw dysgu o bell yn gallu cymryd lle'r rolau pwysig eraill a gyflawnir gan ysgolion fel cymdeithasoli, prydau ysgol am ddim a diogelu, sy'n neilltuo o bwysig i blant agored i niwed. Mae hefyd yn bwysig deall y rhwystrau i ddysgu o bell a wynebir gan nifer mawr o blant a phobl ifanc, yn cynnwys diffyg cyfrifiaduron llechi a chyfrifiaduron personol yn y cartref a diffyg lle a chefnogaeth gan rieni ar gyfer dysgu yn y cartref. Fodd bynnag, mae dulliau digidol yn opsiwn da ar gyfer gwasanaethau eraill. Er

enghraifft, mae mwy o ddiodefwyr trais domestig mewn llochesi yn gwneud defnydd o wasanaethau cyfreithiol ar ôl trefnu iddynt fod ar gael ar-lein.

Roedd consensws ymysg yr arbenigwyr am yr angen roi sylw penodol i bwysigrwydd cynhwysiant digidol, yn cynnwys yr angen i gydnabod bod rhai o bob oed a phob cefndir demograffig yn gallu cael eu hallgáu'n ddigidol, a hynny am wahanol resymau. Rhai o'r rhwystrau yw diffyg sgiliau a hyder, mynediad at y rhyngwrwd a/neu ddyfeisiau a'r gallu i'w fforddio, ac ansawdd gwael y gwasanaeth band eang (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig). Byddai hyfforddiant un i un a help ariannol i'r rheini ar incwm isel yn gallu bod o gymorth. Mae'n bwysig na fydd gwasanaethau i'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn troi'n ddarpariaeth eilradd, ac y bydd gwasanaethau cymorth traddodiadol yn cael eu darparu o hyd i'r lleiafrif mawr yng Nghymru sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n ddigidol. Cyfeiriwyd at y perygl y bydd y 22 o awdurdodau lleol yn mynd ati ar eu pen eu hunain i ailddylunio prosesau, a dadleuwyd bod angen dod o hyd i ffyrdd i osgoi dyblygu ac annog gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio i drawsnewid gwasanaethau ar sail ddigidol. Rhai awgrymiadau a gynigiwyd oedd strategaeth cynhwysiant digidol i Gymru a Tsar cynhwysiant digidol, i gynig arweiniad gwleidyddol tymor hir.

Gwasanaethau cyhoeddus seiliedig ar leoedd

Bydd effaith y pandemig yn amrywio rhwng cymunedau, felly bydd angen ymatebion seiliedig ar leoedd sy'n gyson â'r anghenion a'r asedau mewn gwahanol ardaloedd. Mae'n bosibl y bydd mwy o fannau manwerthu gwag, llai o swyddfeydd a mwy o weithio gartref, fel y bydd llai o bobl yng nghanol trefi ac y bydd adferiad busnesau yn y sectorau lletygarwch a manwerthu yn un araf. Dadleuwyd ei bod yn bosibl y bydd angen i wasanaethau cyhoeddus fod yn angor yng nghanol trefi, er enghraifft, canolfannau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau a lle ar gyfer gweithgareddau cymunedol, neu gasgliad o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig mannau fforddiadwy. Bydd newidiadau mewn patrymau teithio yn effeithio ar addasrwydd trafndiaeth gyhoeddus. Awgrymwyd darparu system fwy hyblyg ar ffurf y cerdyn 'oyster' er mwyn cynnig trafndiaeth fwy fforddiadwy.

Mae angen meddwl yn fwy cyffredinol am wasanaethau cyhoeddus fel gweithredwyr economaidd a chyfryngwyr mewn cymunedau lleol (e.e. gofal iechyd, addysg, cyfleustodau) a manteisio i'r eithaf ar eu potensial i hybu gweithgarwch economaidd lleol drwy brosesau caffael cyhoeddus a chadwyni cyflenwi. Mae rhan allweddol i'w chwarae gan brifysgolion wrth sbarduno gweithgarwch economaidd yn eu rhanbarth daearyddol, a hefyd drwy ymgysylltu cymunedol a dinesig. Mewn unrhyw strategaeth ar gyfer addysg uwch, dylid ystyried y posibilrwydd o ailstrwythuro ac ailfeddwl o bosibl am y cydbwysedd rhwng addysgu ac ymchwil mewn rhai sefydliadau. Mae cyfle i brifysgolion ddarparu mwy o gymorth

i economïau lleol drwy brynu gwasanaethau'n lleol a datblygu cyfalaf mewn economïau a chymunedau lleol, gan gydnabod y gallai fod yn ddrutach a chymryd mwy o amser mewn rhai achosion.

Mae nifer o heriau'n wynebu cartrefi gofal. Yn y tymor byr, mae'n bosibl y bydd effaith y pandemig ar gyfraddau defnydd, cyllid a'r gweithlu yn bygwth eu hyfywedd ariannol. Yn y tymor hwy, mae'n bwysig nodi bod nifer mawr o adeiladau cartrefi gofal yn hen ac y byddant yn anaddas i'w diben ymhen 10-15 mlynedd, a bod nifer mawr o'u perchenogion ar fin oedran ymddeol. Dadleuwyd bod rhan i'w chwarae gan lywodraethau drwy gefnogi strategaethau i ailfeddwl am gartrefi gofal gan eu gweld yn rhan o gymunedau, i ddatblygu dulliau comisiynu blaengar ar gyfer modelau newydd o ofal cartref, ac i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gyflymach. Cyfeiriwyd hefyd yn y drafodaeth at yr angen am well data i ddeall yn iawn yr effeithiau o'r pandemig ar ofal cymdeithasol. Nodwyd hefyd fod rôl y sector gwirfoddol, a ffyrdd i'w gyllido yn y dyfodol, a'r angen am well cymorth i ofalwyr, yn heriau allweddol.

Cyfranogwyr

Cadeirydd: Jeremy Miles

*Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru
(yn gyfrifol am waith adfer at y dyfodol)*

Yr arbenigwyr a gymerodd ran:

Yr Athro Elwen Evans QC

Pennaeth Coleg y Gyfraith, Prifysgol Abertawe

Sally Meecham

Cadeirydd Dros Dro y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

Syr Emyr Jones-Parry

*Cyn Gynrychiolydd Parhaol Prydain yn y Cenhedloedd Unedig a chyn Gynrychiolydd Parhaol
y DU ar Gyngor Gogledd Iwerydd*

Chantal Patel

*Pennaeth Astudiaethau Iechyd Rhyngbroffesiynol a Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg Glinigol
ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe*

Yr Athro Karel Williams

Athro ym Mhrifysgol Manceinion, Cyfarwyddwr Ymchwil i newid cymdeithasol-economaidd

Yr Athro Miriam Lips

Athro Llywodraeth Ddigidol ym Mhrifysgol Victoria Wellington, Seland Newydd

Yr Athro Allyson Pollock

Cyfarwyddwr Canolfan Ragoriaeth Gwyddorau Rheoleiddio ym Mhrifysgol Newcastle

Llywodraeth Cymru: Ian Butler, Gareth Williams, Jane Runeckles, Jonathan Price, Claire Bennett, Gareth Bevington

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Laura Bennett, Steve Martin, Emma Taylor-Collins

Bord gron 2

Y cais i arbenigwyr a gymerodd ran yn yr ail gyfarfod bord gron oedd cynnig cyngor ar yr angen posibl am ad-drefnu gwasanaethau cyhoeddus mewn ymateb i'r pandemig, gan roi sylw penodol i iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a dysgu ôl-16, tai a digartrefedd, a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Themâu allweddol

Mae nifer o wahanol heriau'n codi wrth adfer ar ôl y pandemig Coronafeirws. Mae angen i Lywodraeth Cymru bennu blaenoriaethau clir a bod yn ymarferol o ran y ffyrdd gorau i ddefnyddio ei phwerau, ei dylanwad a'i chyllid. Bydd yn bwysig buddsoddi yn yr ymyriadau polisi a'r pecynnau cymorth economaidd sydd fwyaf effeithiol i ddelio â'r blaenoriaethau hyn.

Mae gwasanaethau cyhoeddus wedi ymateb yn dda i'r argyfwng presennol. Cafwyd mwy o weithio cydgysylltiedig, a thrawsnewid yn y ffordd o ddarparu rhai gwasanaethau. Mae angen cynyddu'r defnydd o ffyrdd newydd o weithio yn hytrach na dychwelyd at fodolau blaenorol ar gyfer darparu gwasanaethau. Byddai dull MAPS (Mainstreaming, Acceleration and Policy Support) yn gallu bod yn ffordd fuddiol i wneud hyn.

Nid yw gweithio o bell a gwasanaethau cyhoeddus digidol yn addas i bawb. Mae angen seilio gwaith i drawsnewid gwasanaethau ar dystiolaeth gadarn a phrofiad y defnyddiwr er mwyn sicrhau na fydd y rheini sydd heb fynediad at wasanaethau ar-lein yn cael gwasanaethau tameidiog, eilradd.

Mae rhwystrau sylweddol i weithio cydgysylltiedig yn cynnwys gwahaniaethau mewn telerau ac amodau, pryderon am allu byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol, ac adrannau'n gweithredu ar wahân i'w gilydd yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r pandemig Coronafeirws wedi amlygu a gwaethygu anghydraddoldebau. Bydd yn bwysig bod polisiâu adfer yn hyrwyddo cyfle cyfartal, mynediad at waith am dâl a buddion. Mae angen diogelu swyddi a rheoli'r farchnad lafur yn weithredol. Mae'r pandemig Coronafeirws wedi codi proffil gweithwyr allweddol ac mae cyfle i ailbricio eu cyfraniad economaidd a chymdeithasol. Ond bydd hyn yn galw am fuddsoddi ychwanegol sylweddol, yn enwedig ym maes gofal iechyd.

Wrth ymateb i'r pandemig Coronafeirws, mae angen ymdrin ag anghenion amrywiol y gwahanol genedlaethau. Bydd angen parhau i warchod pobl hŷn hyd y gellir rhag-weld. Maent yn wynebu risg neilltuol o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, ac maent yn llai tebygol o allu defnyddio gwasanaethau ar-lein. Mae pobl ifanc wedi colli cyfleoedd dysgu

pwysig ac yn wynebu'r risg fwyaf o brofi creithio hirdymor o ganlyniad i ddirywiad economaidd. Mewn dirwasgiadau blaenorol, mae ansicrwydd swydd wedi'i gysylltu â chynnydd mewn hunanladdiad.

Mae grwpiau BAME yn wynebu risg fwy o farwolaeth o COVID-19 na grwpiau Gwyn Prydeinig, a gallant bryderu'n neilltuol ynghylch llacio cyfyngiadau. Mae'n bwysig peidio â rhoi'r holl bobl BAME yn yr un categori o ran anghenion. Mae angen cynnal asesiadau o effaith i ddeall effeithiau'r pandemig a'u lliniaru, yn ogystal ag ymchwil i ddeall pam mae pobl BAME wedi profi effaith fwy ar gyfartaledd.

Cafwyd cynnydd mewn gweithgarwch yn y gymuned i helpu pobl agored i niwed. Rydym wedi gweld arweinwyr naturiol yn codi mewn cymunedau, mwy o wirfoddoli, a datblygu partneriaethau newydd â'r sectorau preifat a gwirfoddol. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn hybu dulliau sy'n seiliedig ar asedau, yn canolbwyntio ar bobl ac yn gweithredu o'r gwaelod i fyny er mwyn elwa o'r ewyllys da a'r gweithio ystyryth a welwyd yn yr ymatebion hyn i'r argyfwng.

Iechyd a gofal cymdeithasol

Mae cyfle i wneud newidiadau mentrus, gan fanteisio i'r eithaf ar y gefnogaeth neilltuol a ddangoswyd yn ddiweddar i'r GIG a'r gydnabyddiaeth i'r heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol. Er hynny, ni fydd dulliau darparu gofal o bell yn addas i'r holl gleifion ac nid ydynt yn addas i bob math o anhwylder. Mae angen seilio gwaith i drawsnewid gwasanaethau ar dystiolaeth gadarn a dealltwriaeth o'i derfynau a'i ganlyniadau anfwriadol o ran mynediad, ansawdd gofal, a chynnydd mewn anghydraddoldebau.

Mae'r pandemig Coronafeirws wedi amlygu a dwysáu heriau i'r sector gofal cymdeithasol. Mae'n sector cymysg sy'n cynnwys darparwyr sy'n rheoli ac yn berchen ar gartrefi gofal bach a nifer cymharol fach o ddarparwyr mwy. Mae'r pandemig wedi arwain at gostau ychwanegol sylweddol yng nghyswllt PPE a darparu ar gyfer absenoldeb staff oherwydd salwch a gwarchod pobl hŷn, ac mae rhai darparwyr llai wedi mynd i drafferthion ariannol. Bydd angen darparu rhagor o gyllid yn y system er mwyn i rai darparwyr allu goroesi ac mae hyn hefyd yn codi'r ddadl o blaid diwygio ehangach. Byddai newid i ddull comisiynu seiliedig ar ganlyniadau hefyd o gymorth drwy roi mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr ac ymreolaeth i benderfynu'r ffordd orau i strwythuro a darparu gwasanaethau.

Mae cyfle i ailbrisiu gwaith gofalwyr a gweithwyr allweddol eraill, a gwella eu statws galwedigaethol, er enghraifft drwy sicrhau eu bod yn cael y cyflog byw gwirioneddol. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i ymgyrchoedd diweddar i recriwtio staff dros dro, ac mae hyn wedi helpu i reoli risg a chynyddu capasiti yn y tymor byr. Mae angen adeiladu ar y sail hon er mwyn sicrhau gweithlu ar gyfer y tymor hir.

Mae'r trydydd sector yn darparu gwasanaethau hanfodol mewn meysydd fel iechyd meddwl ac atal hunanladdiad. Yn ôl rhai amcangyfrifon, mae'n bosibl y bydd cymaint â 40% o elusennau bach yn diflannu o ganlyniad i gollu cyllid os bydd dirywiad economaidd sylweddol, ac mae nifer o'r rhain wedi chwarae rhan bwysig drwy ddarparu cymorth ym meysydd iechyd meddwl ac atal hunanladdiad. Mae angen diogelu gwasanaethau hanfodol yn y trydydd sector ac ystyried sut i helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol mewn meysydd fel gofal yn y cartref. Bydd hyn yn galw am gefnogaeth gan gomisiynwyr lleol ac adnoddau ychwanegol.

Mae'r pandemig Coronafeirws wedi amlygu anghydraddoldebau iechyd presennol, yn cynnwys y berthynas rhwng dosbarth cymdeithasol, gweithgarwch corfforol a gordewdra. Mae tystiolaeth anecdotaidd bod y rheini a oedd yn gwneud ychydig iawn o ymarfer corff cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud yn gwneud llai byth nawr, tra bo'r rheini a oedd eisoes yn gorfforol weithgar wedi parhau ag ymarfer corff. Ond mae'n bosibl y bydd cyfle i sefydlu'r arfer o ymarfer bob dydd sydd wedi'i hyrwyddo yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud er mwyn hybu newid tymor hwy mewn ymddygiad.

Byddai ansicrwydd swydd a diweithdra yn gallu arwain ar gynnydd mewn cyfraddau hunanladdiad. Mae cyfraddau hunanladdiad ymysg pobl ifanc wedi codi ledled y DU er 2010. Mae tystiolaeth yn dangos y bydd cyfraddau hunanladdiad yn aml yn codi cyn cynnydd mewn diweithdra oherwydd ansicrwydd swydd, sydd yn destun pryder i bobl hunangyflogedig yn benodol ar hyn o bryd. Bydd rhwydi diogelwch ariannol tymor byr a pholisi hirdymor gweithredol ar y farchnad lafur a chyflogaeth yn fesurau allweddol, yn ogystal â gwerthuso'r ddarpariaeth o ofal plant yng nghyd-destun y newid mewn amgylchiadau.

Addysg

Bydd effeithiau economaidd tymor hwy y pandemig Coronafeirws yn cael eu teimlo'n fwy ar gyfartaledd gan bobl ifanc mewn perthynas ag addysg, swyddi a'r economi. Mae'n bwysig darparu gwybodaeth gywir am yr opsiynau sydd ar gael iddynt o ran addysg a hyfforddiant, yn ogystal â chyingor da ar yrfaoedd.

Roedd y proffesiwn addysgu wedi mynd ati'n gyflym iawn i fabwysiadu dulliau dysgu o bell a chafwyd rhai newidiadau cadarnhaol a allai barhau. Er hynny, nid rhannu gwybodaeth yw unig bwrpas addysg, ac mae dysgwyr ar bob lefel yn colli cyfleoedd dysgu ehangach a phrofiadau a geir drwy fod yn yr ysgol. Mae ysgolion yn ganolfannau pwysig, yn enwedig mewn cymunedau mwy difreintiedig, ac mae rhieni'n dibynnu arnynt am gyngor a chymorth.

Mae cyfle i ysgolion chwarae mwy o ran yn yr adferiad economaidd a chymdeithasol, gan fanteisio ar yr adnoddau, yr ymddiriedaeth a'r perthnasoedd sydd ganddynt yn eu

cymunedau. Mae cyfle hefyd i ailfeddwl am addysg ysgol¹, a gallai hyn olygu, er enghraifft, ymestyn y diwrnod ysgol a chydweithio â gwahanol sectorau i gyfrannu at weithgareddau celfyddydol, diwylliannol a chwaraeon ar gyfer pobl ifanc.

Mae pobl ifanc yn wynebu gorbryder ac ansicrwydd cynyddol mewn cysylltiad ag arholiadau, rhagfynegi graddau a'u hopsiynau ar gyfer addysg bellach ac uwch, yn ogystal â cholli mynediad at gyngor a chymorth gan athrawon. Mae gofalmwr ifanc wedi profi effaith neilltuol o beidio â bod mewn ysgol neu goleg. Mae pobl ifanc o gefndiroedd BAME yn ofni y bydd rhagfarnau diarwybod wrth ragfynegi graddau yn cael effaith niweidiol arnynt. Wrth lunio strategaethau i helpu pobl ifanc ac osgoi cynnydd yn y nifer sydd heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, dylid cynnwys grwpiau cymunedol lleol sydd wedi ffurfio perthnasoedd â phobl ifanc, a sicrhau bod gan y grwpiau hynny yr adnoddau sydd eu hangen i ymgysylltu â phobl ifanc. Bydd angen cymorth ar rai plant a phobl ifanc i drechu pryder ynghylch dychwelyd i'r ysgol, gan gynnwys, er enghraifft, y rheini sy'n wynebu risg o fwlio. Mae angen hefyd am gymorth iechyd meddwl i bobl ifanc gydag ymyriadau cynnar ar lefel leol.

Mae prifysgolion yn bwysig i sicrhau gweithlu addysgedig a medrus ar gyfer y dyfodol, ac mae'n bosibl y bydd angen cymorth arnynt. Ond mae angen buddsoddi hefyd mewn addysg bellach a dysgu yn y gymuned sy'n gallu cynnig cyfleoedd i bobl ifanc dderbyn hyfforddiant galwedigaethol yn agos i'w cartrefi. Mae angen gwrthdroi toriadau yng nghyllid addysg bellach a buddsoddi mewn mwy o fathau o hyfforddiant gan gynnwys, er enghraifft, hyfforddiant yn y diwydiannau creadigol. Yn ogystal â hyn, mae angen darparu gwell cymorth ariannol i ddysgwyr. Mae'n bosibl y daeth yn bryd ymestyn yr oedran addysg gorfodol i 19 oed er mwyn cynorthwyo oedolion ifanc. Bydd rhan bwysig i'w chwarae gan ddiwydiant hefyd, yn enwedig o ran darparu prentisiaethau.

Trafnidiaeth

Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol a gweithio o bell wedi lleihau tagfeydd traffig ond maent hefyd wedi lleihau'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn sylweddol. Fodd bynnag, mae diffyg dewisiadau o ran trafndiaeth gyhoeddus i gymudwyr yn ne-ddwyrain Cymru ac os bydd pobl yn ofni defnyddio bysiau a rheilffyrdd, yna ceir tagfeydd sylweddol ar yr oriau prysuraf yn ardal teithio i'r gwaith Caerdydd/Casnewydd/Bryste.

Byddai newid tymor hir at weithio o bell yn gallu helpu i leihau cymudo dros bellter mawr a gallai roi hwb economaidd i drefi os bydd pobl yn dewis gweithio gartref neu mewn canolfannau lleol. Ond nid yw gweithio o bell yn ddewis dichonol i weithwyr mewn nifer o'r

¹ Byddai gwaith Panel Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ail-greu Addysg yn gallu cyfrannu at hyn.

sectorau allweddol fel iechyd a gofal cymdeithasol, manwerthu, lletygarwch, adeiladu a gweithgynhyrchu. Felly mae angen datblygu dewisiadau ymarferol eraill yn lle teithio mewn ceir, yn cynnwys teithio llesol. Dylai hyn fod yn rhan o becyn buddsoddi mwy ar gyfer 'seilwaith gwyrdd'.

Mae'n anodd rhedeg bysiau lle mae maint yr elw a nifer y teithwyr yn fach ond mae'n hanfodol bod y rhwydwaith bysiau'n cael ei gynnal ar gyfer pobl sydd heb fynediad at geir ac mae angen cynorthwyo gwasanaethau traws gwlad fel y bydd pobl yn gallu teithio rhwng trefi (nid o fewn dinasoedd yn unig).

Tai a digartrefedd

Mae'r pandemig Coronafeirws wedi dangos pa mor bwysig yw sicrhau bod gan bobl gartrefi diogel a gweddus. Mae darparwyr wedi croesawu newidiadau mewn rheoliadau sydd wedi'i gwneud yn haws i wasanaethau weithredu yn ystod yr argyfwng presennol a dylai'r rhain barhau. Gellid gwella ansawdd tai a chreu swyddi drwy fuddsoddi mewn tai cymdeithasol a'u hadnewyddu, drwy ôl-osod at safonau effeithlonrwydd uwch er enghraifft. Mae'r sector wedi rhoi sicrwydd na fydd yn troi tenantiaid allan yn y tymor byr ond mae'n pryderu am y perygl o wynebu ôl-ddyledion, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig.

Byddai adeiladu tai yn gallu bod yn sbardun economaidd a chreu swyddi a chartrefi. Nid oes disgwyl y bydd y rhaglenni adeiladu tai presennol yn ateb y galw ac rydym yn debygol o weld mwy o alw am dai fforddiadwy. Mae cyfle i feddwl am y math o dai sy'n cael eu hadeiladu, yng nghyswllt datgarboneiddio a dylunio tai ar gyfer mwy o weithio gartref, er enghraifft, drwy osod safonau uwch ar gyfer gofod. Mae cyfle hefyd i feddwl ynghylch lleoliadau cartrefi'r dyfodol, a dadlau o blaid neilltuo tir ar gyfer tai fforddiadwy.

Cyfranogwyr

Cadeirydd: Jeremy Miles

*Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru
(yn gyfrifol am waith adfer at y dyfodol)*

Yr arbenigwyr a gymerodd ran:

Dr Victoria Winckler

Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan

Ali Abdi

*Arweinydd Cenedlaethol y Fforwm Ieuenctid BAME yn Race Council Cymru a Rheolwr
Partneriaethau Porth Cymunedol Prifysgol Caerdydd*

Yr Athro Phillip Brown

*Athro Ymchwil Nodedig yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd,
Cadeirydd yr Adolygiad Annibynnol o Arloesi Digidol ar gyfer yr Economi a Dyfodol Gwaith
yng Nghymru*

Lawrence Conway

Cadeirydd Chwaraeon Cymru

Amanda Davies

Prif Weithredwr Grŵp Pobl

Yr Athro Ann John

*Athro Meddygaeth ym Mhrifysgol Abertawe, Cadeirydd Pwyllgor Cyngorol Llywodraeth
Cymru ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed*

Gaynor Richards

Cyfarwyddwr Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

Yr Arglwydd Burns

Cadeirydd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru

Rhian Morgan Ellis

Cyn-bennaeth ysgol, Ysgol Cwm Rhondda

Llywodraeth Cymru: Ian Butler, Gareth Williams, Jane Runeckles, Jonathan Price, Claire Bennett, Gareth Bevington

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Laura Bennett, Steve Martin, Emma Taylor-Collins

Manylion yr Awduron

Mae **Laura Bennett** yn Ymchwilydd Cyswllt yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac yn arbenigo mewn polisi iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae **Steve Martin** yn Gyfarwyddwr Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac yn Athro Polisi Cyhoeddus a Rheoli ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae **Emma Taylor-Collins** yn Uwch Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac yn arwain ar brosiectau cyfiawnder cymdeithasol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Laura Bennett

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored



**Wales Centre
for Public Policy**
Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru